| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
| --- | --- | --- |
| Enw(au) cyntaf | | 4 |

**LEFEL 2**

# GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: CRAIDD
## Unedau 001/004 Y Teulu Thomas
## Set A

5952N1014A2
01

| Cwestiwn | Marc Uchaf | Marc yr Aseswr |
| --- | --- | --- |
| 1. | 2 | |
| 2. | 3 | |
| 3. | 2 | |
| 4. | 4 | |
| 5. | 5 | |
| 6. | 6 | |
| 7. | 4 | |
| 8. | 4 | |
| Cyfanswm | 30 | |

| Sylwadau'r Aseswr: |
| --- |
| Llofnod IQA:<br>Dyddiad: |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CJ*(W20-5952N10-14A2)

**Senario – Y Teulu Thomas**

Lilly-May Thomas yw aelod mwyaf newydd y teulu Thomas. Mae gan Lilly-May 3 brawd/chwaer sydd i gyd o dan 5 oed. Mae mam Lilly-May, Ellie, yn rhiant sengl sydd ddim yn cael llawer o gefnogaeth deuluol.

Mae'r ymwelydd iechyd sy'n ymweld â Lilly-May wedi gweld bod y fam, Ellie, yn cael trafferth ymdopi. Mae brawd hynaf Lilly-May, Ellis, wedi bod yn methu'r ysgol yn ddiweddar a phan mae'n bresennol, mae ei fam wedi bod yn cael trafferth ei gael i'r ysgol ar amser. Mae Ellis yn casáu bod yn hwyr.

Mae'r ymwelydd iechyd yn awgrymu rhaglen gefnogi o'r enw Home-Start i Ellie. Mae hi'n esbonio bod gwirfoddolwyr Home-Start yn treulio tua 2 awr yr wythnos yng nghartref y teulu yn eu cefnogi nhw. Mae Ellie yn ymddangos yn gyndyn *(reluctant)* i ddechrau ond mae hi'n sylweddoli y gallai'r gefnogaeth hon fod yn dda i'r plant.

Mae'r gwirfoddolwr Home-Start yn ymweld â chartref y teulu ac yn cefnogi Ellie i fynd â'r plant i grŵp lleol i rieni a phlant bach. Mae'r gwirfoddolwr hefyd yn helpu i wneud yn siŵr bod Ellis yn cyrraedd yr ysgol ar amser.

Yn ystod un o'r sesiynau i rieni a phlant bach, mae Ellie yn cael gwybod am grŵp chwarae lleol, fforddiadwy *(affordable)* y gallai'r efeilliaid 2 oed, Sophie a Sam, ei fynychu. Mae Ellie yn penderfynu y byddai hyn o help mawr, gan y byddai'n rhoi amser iddi yn ystod y dydd i ddal i fyny â phethau gartref.

Y diwrnod wedyn, mae Ellie yn cofrestru'r efeilliaid i fynychu grŵp chwarae Playtown am ddau ddiwrnod yr wythnos.

Cyn dechrau yn Playtown, mae'n rhaid i Ellie lenwi ffurflen gofrestru. Mae'r ffurflen yn gofyn am wybodaeth am hanes meddygol yr efeilliaid, eu hoff ddewisiadau *(preferences)* a'u cefndir, anghenion deietegol ac anghenion diwylliannol y ddau, a'u gwybodaeth deuluol. Mae hefyd yn gofyn am wybodaeth gyswllt mewn argyfwng gan gynnwys ffotograffau o unrhyw un arall allai gasglu'r efeilliaid o'r lleoliad.

Mae Ellie hefyd yn cael copi o bolisïau a gweithdrefnau Playtown ac mae arweinydd y lleoliad yn esbonio bod y grŵp chwarae wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae hi'n dweud wrth Ellie am ddarllen drwy'r dogfennau i gyd er mwyn gwneud yn siŵr ei bod hi'n gwybod sut mae'r gwasanaeth yn gweithio.

Erbyn hyn, mae'r efeilliaid wedi bod yn mynychu'r grŵp chwarae ers 6 mis. Maen nhw'n blant hapus a bob amser yn cyrraedd y grŵp chwarae â gwên. Mae Ellie wedi awgrymu i rai o'r staff y byddai hi'n hoffi cael mwy o sesiynau ond nad yw hyn yn bosibl oherwydd y gost.

Yn ddiweddar, mae staff Playtown wedi sylwi bod Ellie'n cyrraedd yn hwyr i gasglu'r efeilliaid. Mae rhai o'r staff wedi sylwi hefyd bod Lilly-May yn aml yn dal yn ei phyjamas. Mae Ellie hefyd wedi rhoi'r gorau i fynd i'r grŵp lleol i rieni a phlant bach.

Mae Sophie a Sam yn aml yn cyrraedd mewn dillad sy'n anaddas *(inappropriate)* i fynd y tu allan, ac yn gwisgo esgidiau sy'n rhy dynn neu rai sy'n anaddas i'r tywydd. Mae Sophie wedi dechrau mynd yn anhapus *(upset)* wrth adael y grŵp chwarae ac mae Sam wedi datgelu bod "Mam yn crio llawer gartref".

Mandy yw arweinydd y grŵp chwarae a hi hefyd yw'r swyddog amddiffyn plant dynodedig *(designated)*. Ar ôl trafod â'r tîm, mae hi'n penderfynu bod hwn yn fater diogelu. Mae ei phryderon am lesiant Ellie a'i phlant yn cael eu cofnodi a'u hadrodd. Mae Mandy yn ymwybodol o bwysigrwydd cofnodi ffeithiau, ac nid barn a beirniadaeth *(judgement)*.

O fewn 10 diwrnod, mae Mandy yn cael adborth am yr atgyfeiriad *(referral)* ac mae'n cael ei gytuno bod angen gwasanaethau cefnogi ychwanegol ar Ellie. Mae'n cael ei drafod, gydag Ellie, y dylai Sophie a Sam gael eu rhoi ar raglen allgymorth Dechrau'n Deg *(Flying Start)*. Bydd Ellie hefyd yn cael mwy o gefnogaeth gan Home-Start i gael dillad ac offer babanod a bydd y gwirfoddolwyr yn ymweld yn fwy aml.

Mae'r ymwelydd iechyd yn parhau i alw gyda'r teulu ac yn cadarnhau bod cartref y plant yn ddiogel: mae bwyd yn y cypyrddau ac mae'r plant yn hapus ac yn cael gofal da. Mae Ellie yn edrych yn flinedig ac yn emosiynol ac mae hi'n cyfaddef ei bod hi'n pryderu mwy a mwy am arian. Y casgliad yw mai nid achos 'plentyn mewn angen' yw hwn, ond y byddai cynnig gwasanaethau cefnogi ychwanegol yn gwella llesiant y plant. Mae cynllun gweithredu'n cael ei roi ar waith *(put in place)* er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae Sophie a Sam nawr yn dathlu eu pen-blwydd yn 3 oed yn y grŵp chwarae, mae Lilly-May nawr yn 1 oed ac mae Ellis yn 5 oed. Mae cael mwy o gefnogaeth wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i lesiant Ellie a'r plant. Mae Ellie yn mynychu'r grŵp i rieni a phlant bach bob wythnos, ac mae Ellis yn cyrraedd yr ysgol ar amser. Mae dillad y plant yn addas i'r amodau tywydd ac mae Lilly-May wedi gwisgo pan mae Ellie yn casglu'r efeilliaid.



ⓗ WJEC CBAC Cyf. 

**Trowch y dudalen.**

Arholwr yn unig

*Atebwch* **bob** *cwestiwn.*

## Cwestiynau'r Teulu Thomas: Set A

**1.** Disgrifiwch pam mae'n bwysig bod grŵp chwarae Playtown yn deall hoff ddewisiadau *(preferences)* a chefndir yr efeilliaid. [2]

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

**2.** Nodwch **dri** ffactor allai fod yn effeithio ar lesiant y teulu Thomas. [3]

(i) .....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

(ii) .....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

(iii) .....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

**3.** Amlinellwch sut mae llesiant y teulu Thomas yn cael ei gefnogi. [2]

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

Arholwr yn unig

**4.** Mae Mandy yn cyfeirio at y polisi diogelu wrth wneud atgyfeiriad.

*(a)* Enwch **un** darn o ddeddfwriaeth, polisi cenedlaethol, arweiniad neu fframwaith sy'n sail i ddiogelu yn Playtown. [1]

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

*(b)* Esboniwch rôl a gwerth y ddeddfwriaeth, y polisi cenedlaethol, yr arweiniad neu'r fframwaith rydych chi wedi'i enwi uchod. [3]

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

**5.** *(a)* Amlinellwch y pwysigrwydd o sicrhau bod y lleoliad yn mabwysiadu dull seiliedig ar hawliau. [2]

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

*(b)* Esboniwch pam mae sefydlu perthynas sy'n cefnogi ymddiriedaeth *(trust)* a chysylltiad *(rapport)* yn bwysig mewn lleoliad gofal plant. [3]

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

Arholwr yn unig

**6.** Cwblhewch y tabl isod. [6]

| **Y Teulu Thomas** |
| --- |
| (i) Nodwch **ddau** arwydd mae staff y grŵp chwarae wedi sylwi arno sy'n awgrymu y gallai fod problemau gartref. [2] |
| |
| (ii) Amlinellwch pryd dylai pryderon gael eu cofnodi a'u hadrodd. [2] |
| |
| (iii) Disgrifiwch sut mae'n rhaid storio'r wybodaeth hon. [2] |
| |

Arholwr yn unig

**7.** Esboniwch pam roedd hi'n bwysig bod Mandy, arweinydd Playtown, yn adrodd am ei phryderon. [4]

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

**8.** Disgrifiwch **ddau** reswm pam gallai'r teulu Thomas fod yn fwy tebygol o wynebu risg o niwed neu gam-drin na phlant a theuluoedd eraill sy'n mynychu'r grŵp chwarae. [4]

(i) ..........

..........

..........

(ii) ..........

..........

..........

**DIWEDD Y PAPUR**

Arholwr yn unig

**Parhad yn unig.**